**Ken Skates AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith**
**Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

At Holl Aelodau's Cynulliad

1 Medi 2017

Annwyl Aelod

Fel yr addewais, rwy'n ysgrifennu at holl Aelodau'r Cynulliad yn dilyn trafodaethau a gynhaliwyd o fewn y cyfarfod llawn ar 20fed Mehefin ynghylch y cwestiwn o sefydlu tim criced cenedlaethol i Gymru.

Fel y nodwyd gan y Prif Weinidog, byddai'n beth da gweld tîm criced diwrnod rhyngwladol i Gymru, cyn belled nag y byddai effaith ariannol ar Glwb Criced Morgannwg a'u gallu i chwarae ar y lefel uchaf. Fodd bynnag, mae Criced Cymru, y corff llywodraethu cenedlaethol ar gyfer criced yng Nghymru wedi nodi ei fod yn debygol y byddai goblygiadau nid yn unig i Glwb Criced Morgannwg ond hefyd i Stadiwm SWALEC, a'i allu i barhau i ddenu gemau criced rhyngwladol proffil uchel am ddiwrnod a gemau prawf i Gaerdydd.

Yn y pen draw, dyma benderfyniad i'r awdurdodau criced perthnasol ac nid i Lywodraeth Cymru. Er hynny, mae Criced Cymru wedi cynnig egluro'r sefyllfa yn fanylach i unrhyw aelod, yn bersonol, pe byddai ganddynt ddiddordeb. Byddai fy swyddogion yn barod iawn i hwyluso unrhyw gyfarfod o'r fath.

Rwy'n gobeithio bod hyn yn egluro'r sefyllfa.

Yn gywir

**Ken Skates AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith
Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.